Nodiadau Athrawon

Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

PWNC

Ymateb Prydain i erledigaeth y Natsïaid cyn y rhyfel

Goroesi'r Holocost

GRŴP OEDRAN

Blynyddoedd 7-11 (12-16 oed)

Camau Cynnydd 4 a 5

HYD

1 awr

MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

DISGRIFIAD

RHYBUDD: Mae'r gweithgaredd hon yn cynnwys tystiolaeth fideo yn ymwneud â hunanladdiad.

Mae'r gweithgaredd hon yn cyflwyno myfyrwyr i brofiad goroeswyr yr Holocost a'r golled etifeddol a ddioddefwyd ganddynt yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Bydd myfyrwyr yn ystyried gwerth tystiolaeth goroeswyr a'r rôl y mae'n ei chwarae yn ein dealltwriaeth o hanes yr Holocost.

Bydd myfyrwyr yn gwylio tystiolaeth fideo o Irene Kirstein Watts, goroeswr erledigaeth y Natsïaid a ffoadur y Kindertransport, ac yn myfyrio ar yr heriau a wynebodd a'r modd y llwyddodd i ailadeiladu ei bywyd. Trwy'r lens hon, bydd myfyrwyr yn cael eu hatgoffa, er i'r Holocost ddod i ben yn 1945, na wnaeth ei effaith ddynol ddinistriol i ben bryd hynny.

Mae'r gweithgaredd hefyd yn archwilio rhai o gymhlethdodau ymateb Prydain i newyddion am erledigaeth a llofruddiaeth Iddewon yn ystod yr Holocost. Yn benodol, bydd myfyrwyr yn cael eu cyflwyno i bolisi Prydain ar gaethiwo [internment] ac yn ystyried y cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol yr oedd ffoaduriaid Iddewig yn ei wynebu yn byw yn y DU.

Er mwyn gallu deall y gweithgaredd hon yn y ffordd orau, argymhellir bod myfyrwyr yn cwblhau **Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu** yn gyntaf.

Gellir cwblhau'r gweithgaredd hon fel dosbarth ar ei phen ei hun neu fel rhan dau o gwrs astudio dwy ran. Mae rhan gyntaf y gweithgaredd wedi'i hamlinellu yng **Ngweithgaredd 7 – Prydain a Cholled Etifeddol – Rhan Un.***

NODAU DYSGU

O ganlyniad i gwblhau'r gweithgaredd hwn bydd myfyrwyr yn:

*Mae rhestr lawn o'r gweithgareddau i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

NODAU DYSGU (parhad)

- Myfyrio ar y cysyniad a gwerth tystiolaeth goroeswr a'r hyn y gellir ei ddysgu am brofiadau, gweithredoedd a dewisiadau unigol o dystiolaethau o'r fath.
- Archwilio rhai o'r amwyseddau yn ymateb Prydain i'r newyddion am erledigaeth a llofruddiaeth Iddewon yn ystod yr Holocost, a'r cyd-destun Prydeinig a luniodd yr ymateb hwn.
- Mynd i'r afael â'r camsyniad bod rhyddhau neu achub bob amser yn brofiad syml a chadarnhaol i oroeswyr.
- Deall yr Holocost fel digwyddiad a effeithiodd ar unigolion yn wahanol a myfyrio ar etifeddiaeth barhaus yr Holocost o ran colled, yr effaith a gafodd hyn ar deuluoedd unigol a sut y gwnaeth goroeswyr ailadeiladu eu bywydau.
- Dysgu am y cysylltiad â Chymru trwy dystiolaeth fideo ffoadur y Kindertransport.

OFFER SYDD EI ANGEN

Bwrdd gwyn/marcwyr, cyfrifiadur i wrando ar dystiolaeth.

Ystyriwch

Hysbyswch y myfyrwyr y bydd y gweithgaredd yn canolbwyntio ar ymateb Prydain i Natsïaeth a'r Holocost, a'r golled etifeddol a brofwyd gan oroeswyr yr Holocost.

Eglurwch i fyfyrwyr y bydd y gweithgaredd yn cynnwys tystiolaeth fideo a ddarperir gan oroeswr yr Holocost - hynny yw, person a brofodd yr hanes ac a gafodd ei gyfweld flynyddoedd ar ôl y digwyddiadau i gadw eu hatgofion.

Fel man cychwyn, trafodwch ystyr y gair 'tystiolaeth' gyda'r myfyrwyr.

Ar y bwrdd, lluniwch fap meddwl a gofynnwch i'r dosbarth am eiriau sy'n dod i'r meddwl yn awtomatig wrth feddwl am 'dystiolaeth'.

Efallai y byddwch am ystyried y diffiniadau canlynol a ddarparwyd gan Yad Vashem:[1]

1. Ystyron cyfreithiol: a) pob datganiad o'r fath, ar lafar neu'n ysgrifenedig, a gynigir mewn achos cyfreithiol neu wrandawiad cydgynghorol; a b) rhywbeth sy'n gwasanaethu fel tystiolaeth.
2. Ystyron yn ymwneud â dilysu nad oes ganddynt o reidrwydd gysylltiad cyfreithiol: a) honiad sy'n cynnig dilysiad uniongyrchol o ffaith; a b) tystiolaeth neu brawf i gefnogi ffaith neu honiad.

[1] Yad Vashem, *Using Testimony in Holocaust Education – A Learning Environment* <https://www.yadvashem.org/education/educational-materials/activity-plans/use-of-testimony.html> [cyrchwyd 22 Mai 2022].

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru
© 2022 USC Shoah Foundation

Adnodd wedi'i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

Ystyriwch (parhad)

Yna gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar y daflen waith i fyfyrwyr **(Tasg 1)** a thrafod eu hatebion mewn parau/grwpiau.

Amcan y dasg hon yw i fyfyrwyr feddwl am werth unigryw tystiolaethau goroeswyr yr Holocost. Gall atebion gynnwys:

- Gall tystiolaeth goroeswyr ddarparu stori bersonol am yr Holocost na ellir ei chael neu y gellir ei hanwybyddu mewn dogfennau neu gofnodion ysgrifenedig - gan gynnwys teimladau unigol, cymhellion, ac ofnau'r rhai a brofodd hanes.
- Mae tystiolaeth goroeswyr yn helpu i bwysleisio effaith ddynol unigol yr Holocost - yn hytrach na chyflwyno digwyddiadau mewn ystadegau dad-ddyneiddiol.
- Mae'r weithred o wrando ar dystiolaeth o'r fath yn 'dwyn tystiolaeth' - fel y bydd gwybodaeth am yr Holocost yn parhau - yn y gobaith y bydd gwybodaeth o'r fath yn helpu i atal troseddau tebyg yn erbyn dynoliaeth rhag cael eu cyflawni byth eto.
- Gellir ystyried gwrando ar dystiolaeth o'r fath hefyd yn fodd i anrhydeddu cof y goroeswr a chof y rhai na oroesodd.

Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn cwestiynu dibynadwyedd tystiolaeth a gofnodir flynyddoedd yn ddiweddarach ar ôl y digwyddiadau – a dylent ddeall y gallant werthuso tystiolaethau o'r fath yn feirniadol yn yr un modd â ffynonellau hanesyddol eraill. Fodd bynnag, dylid eu hannog hefyd i archwilio gwerth cynhenid tystiolaeth o'r fath fel tystiolaeth o effaith yr Holocost ar oroeswyr a'i etifeddiaeth barhaus, ymhell ar ôl diwedd y rhyfel.

Casglu

Eglurwch i'r myfyrwyr y byddan nhw nawr yn archwilio'r heriau sy'n wynebu goroeswyr yr Holocost trwy edrych ar brofiadau Irene Kirstein Watts, goroeswr erledigaeth y Natsïaid a ffoadur y Kindertransport.

Efallai y bydd angen i fyfyrwyr gyfeirio at y **Daflen**, sy'n darparu geirfa o dermau allweddol, i helpu gyda'r tasgau ar y daflen waith.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen **bywgraffiad Irene**, sydd wedi'i nodi yn y **daflen waith i fyfyrwyr**.

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ddadansoddi'r ffotograff o dad Irene, Ziegmund Kirstein (a ddarperir ar daflen waith y myfyrwyr). Mae'r daflen waith yn gosod cwestiynau i helpu myfyrwyr gyda'u dadansoddiad **(Tasg 2)**.

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

Casglu (parhad)

Unwaith y bydd y myfyrwyr wedi cwblhau'r dasg hon, eglurwch iddynt y tynnwyd y llun yn Abertawe yn y 1950au. Roedd tad Irene yn un o naw brawd a chwaer, a chafodd pob un ohonyn nhw eu llofruddio yn yr Holocost.

Nesaf, gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y crynodeb byr o bolisi llywodraeth Prydain ar 'gaethiwo' [intnerment] yn ystod yr Ail Ryfel Byd (a ddarperir ar **daflen waith y myfyrwyr**). Yna gofynnwch iddyn nhw wylio **clip fideo 1**, lle mae Irene yn disgrifio beth ddigwyddodd i'w thad yn ystod ac ar ôl y rhyfel. [**Rhybudd:** mae clip fideo 1 yn disgrifio hunanladdiad tad Irene.]

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar y daflen waith i fyfyrwyr **(Tasg 2).**

Anogwch y myfyrwyr i fyfyrio ar gymhlethdod ymateb Prydain i ffoaduriaid yn ystod y rhyfel. O fis Mai 1940 ymlaen, daeth agweddau Prydain tuag at ffoaduriaid yn fwy gwyliadwrus a negyddol fyth. Cynyddodd ofn goresgyniad yr Almaen deimladau o elyniaeth tuag at dramorwyr a ffoaduriaid ym Mhrydain. Cyfrannodd hyn at benderfyniad hollgynhwysfawr y llywodraeth a pholisi canoli ar lochesi. Roedd ofnau hefyd y gallai ffoaduriaid fod yn ysbiwyr – sy'n ymddangos yn arbennig o anghyfiawn yn achos ffoaduriaid Iddewig a oedd, wrth gwrs, wedi cael eu gorfodi i adael yr Almaen oherwydd erledigaeth y Natsïaid.

Mae tystiolaeth Irene yn ymwneud â'i thad yn adlewyrchu trawma parhaus goroeswyr yr Holocost ar ôl diwedd y rhyfel, a chanlyniadau dinistriol dioddefaint a cholled o'r fath.

Nesaf, gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y darn ar y daflen waith i fyfyrwyr o wefan Yad Vashem, sy'n rhoi crynodeb byr iawn o brofiadau gwahanol goroeswyr yr Holocost yn dilyn eu rhyddhad ar ddiwedd y rhyfel. [Ffynhonnell: https://www.yadvashem.org/education/educational-materials/lesson-plans/liberation-and-survival.html.]

Yna, gan weithio mewn parau/grwpiau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiwn ar y daflen waith **(Tasg 3).**

Anogwch y myfyrwyr i fyfyrio ar:

- Y ffaith nad oedd profiad goroeswyr yr Holocost yn unffurf o bell ffordd.
- Roedd rhyddhad – a diwedd y rhyfel – yn gyffredinol yn foment pan ddaeth goroeswyr i sylweddoli maint annealladwy'r Holocost, ac anferthedd eu colledion personol.
- Roedd y gwrthodiad gan boblogaethau lleol a gwrth-semitiaeth barhaus yn ergyd drom arall. Bu'n rhaid i lawer o oroeswyr ymgodymu â cholled nid yn unig eu teuluoedd eu hunain ond eu cymuned a'u cartrefi, ac unrhyw obaith o angori i normalrwydd eu bywydau cyn y rhyfel.
- Nid oedd rhyddhad, felly, yn foment o lawenydd a dathliad mawr i oroeswyr yr Holocost ac roedd angen ymdrech oruwchddynol bron i wynebu'r hyn a gollwyd a oedd yn anadferadwy.

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Adnodd wedi'i greu gan Emelye Clifford, Gwirfoddolwr JHASW/CHIDC

Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

Casglu (parhad)

Nesaf, gofynnwch i'r myfyrwyr wylio **clip fideo 2**, lle mae Irene yn siarad am ei bywyd fel oedolyn ar ôl y rhyfel.

Yna, gan weithio mewn grwpiau/parau, gofynnwch i'r myfyrwyr ateb y cwestiynau ar y daflen waith i fyfyrwyr **(Tasg 3)**.

Gall myfyrwyr nodi penderfyniad Irene i ymfudo i Ganada, ei balchder yn ei phlant a'i hwyrion a'i gyrfa gydol oes yn gweithio gyda phlant ac ar eu cyfer fel enghreifftiau o sut y gwnaeth ailadeiladu ei bywyd yn dilyn yr Holocost. Anogir myfyrwyr hefyd i fyfyrio ar dystiolaeth Irene yn fwy cyffredinol a gwerth dysgu am yr Holocost gan oroeswr yr Holocost (gan adeiladu ar y drafodaeth yn **Nhasg 1**).

Llunio

Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y gosodiad "Goroeswyr yr Holocost oedd y rhai lwcus" ac yna i ysgrifennu eu meddyliau a'u myfyrdodau ar y gosodiad hwn **(Tasg 4)**. Anogwch y myfyrwyr i gyfeirio at yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn y gweithgaredd - yn enwedig o dystiolaeth fideo Irene.

Efallai y byddan nhw hefyd am fyfyrio ar y cwestiwn canlynol fel rhan o'u hymateb:

- Beth yw'r ffordd orau i lywodraethau, elusennau, asiantaethau cymorth ac unigolion helpu teuluoedd sy'n dianc rhag rhyfel neu erledigaeth mewn gwlad arall?

Cyfathrebu

Gan weithio mewn parau neu grwpiau, gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen ymateb ysgrifenedig myfyriwr arall **(Tasg 4)**. Yna gofynnwch iddynt drafod yr hyn y maent wedi'i ddarllen ac a yw eu meddyliau a'u myfyrdodau yr un fath neu'n wahanol i'w gilydd.

Atodiadau

1. Taflen 1: Geirfa.
2. Taflen 2: Trawsgrifiadau Video.
3. Taflen 3: Taflen Waith Myfyrwyr.

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation

Activity 8: Prydain a Cholled Etifeddol - Rhan 2

Rhestr o Weithgaredddau

Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir.
Gweithgaredd 2: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 2 - Y Daith.
Gweithgaredd 3: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 3 - Cyrraedd Cymru.
Gweithgaredd 4: Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd.
Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu.
Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda.
Gweithgaredd 7: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 1.
Gweithgaredd 8: Prydain a Cholled Etifeddol: Rhan 2.
Gweithgaredd 9: Ailfeddwl Cyfrifoldeb.
Gweithgaredd 10: Gwrthsafiad a Chofio.

Delwedd Clawr

Ziegmund Kirstein, tad Irene Kirstein Watt yn Abertawe, 1950au. Delwedd o gyfweliad Irene Kirstein Watts o archif USC Shoah – The Institute for Visual History and Education, 1998. Am ragor o wybodaeth: http://sfi.usc.edu/.

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation